



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1568A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn  
fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/sydd i'w gyflawni yn unol â  
Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng  
nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt  
unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod  
Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.  
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau,  
yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae  
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon  
unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn  
[swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will  
not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd  
gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Alan Hughes, Euros Lake a Jeremy Evans  
dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi ystyried a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio'r 'Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar ac i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth', ond ceir cyfleoedd i sefydlu'r pum ffordd o weithio ymhellach.

## Adroddiad cryno

Pam wnaethom gynnal yr Archwiliad 4

Beth wnaethom ei archwilio 4

## Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi ystyried a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio'r 'Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar ac i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth', ond ceir cyfleoedd i sefydlu'r pum ffordd o weithio ymhellach 6

Mae'r Cyngor wedi ceisio dylunio'r gwasanaethau gyda'r nod o annog unigolion i ymgysylltu â gwasanaethau'n gynnar er mwyn lleihau'r galw tymor hwy a'r angen am lefelau uwch o ymyrraeth, ond nid yw'n glir a yw'r cyllid yn gynaliadwy yn yr hirdymor 6

Mae'r Cyngor wedi ceisio deall y ffactorau sy'n effeithio ar blant ond mae angen iddo barhau i ddadansoddi data ymhellach er mwyn deall gwraidd y broblem a llywio ei weithgareddau ataliol 7

Mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae'r cam wedi cyfrannu at ei amcanion llesiant ond mae'n bosibl y byddai gwybodaeth fwy eang am y diffiniad o integreiddio dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn helpu i sicrhau manteision gweithredol 8

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gydweithredu â phartneriaid ac adlewyrchu anghenion a dymuniadau cymunedau lleol, ond gallai wella'r ffordd y mae'n adolygu effeithiolrwydd y cydweithredu 9

Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth lunio'r gwasanaeth, ond mae angen adolygu effeithiolrwydd ei ddull gweithredu er mwyn canfod arferion da a gweld a oes gwersi i'w dysgu 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

## Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam wnaethom gynnal yr Archwiliad

- 1 Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), un o'r gofynion statudol yw bod Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy:
  - a. wrth bennu eu hamcanion llesiant; a
  - b. wrth gymryd camau i'w cyflawni.
- 2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain'.
- 3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad Cynulliad. Rhaid i'r adroddiad cyntaf o'i fath gael ei gyhoeddi erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 corff y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu i fwydo i'w adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.
- 5 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Hydref 2019.
- 6 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein canfyddiadau o'n harchwiliad o'r Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth, sef un cam y mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.
- 7 Mae hefyd yn cynnwys ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Beth wnaethom ei archwilio

- 8 Fe wnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei Drefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth.
- 9 Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy rhaid i gyrrff cyhoeddus roi ystyriaeth i'r 'ffyrdd o weithio' canlynol:

## Arddangosyn 1: Y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** Llywodraeth Cymru **Yr Hanfodion**<sup>1</sup>.

### Y Pum Ffordd o Weithio

#### **Hirdymor**

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.

#### **Atal**

Sut gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

#### **Integreiddio**

Ystyried sut gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

#### **Cydweithredu**

Gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) gan helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

#### **Cynnwys**

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â budd mewn cyrraedd y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu'r ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu yn ei holl amrywiaeth.

- 10 Canfu ein harchwiliad: Fod y Cyngor wedi ystyried a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio'r 'Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar ac i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth', ond y ceir cyfleoedd i sefydlu'r pum ffordd o weithio ymhellach.

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, 2015.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

Mae'r Cyngor wedi ystyried a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio'r 'Trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar ac i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth', ond fe geir cyfleoedd i sefydlu'r pum ffordd o weithio ymhellach

Mae'r Cyngor wedi ceisio dylunio'r gwasanaethau gyda'r nod o annog unigolion i ymgysylltu â gwasanaethau'n gynnar er mwyn lleihau'r galw tymor hwy a'r angen am lefelau uwch o ymyrraeth, ond nid yw'n glir a yw'r cyllid yn gynaliadwy yn yr hirdymor

### Beth wnaethom edrych amdano

- 11 Edrychom am dystiolaeth o:
  - ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
  - cynllunio dros gyfnod priodol;
  - adnoddau sydd wedi'u dyrannu i sicrhau manteision hirdymor; a
  - threfniadau priodol ar gyfer monitro ac adolygu.
- 12 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer yr 'hirdymor' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.<sup>2</sup>

### Beth wnaethom ei ganfod

- 13 Gwelsom y cryfderau canlynol:
  - mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig; ac
  - mae'r cam / gwasanaeth yn cynnwys sawl elfen sydd â'r nod o leihau'r galw yn y tymor byr i'r tymor canolig, ond nid yw'n glir beth yw'r weledigaeth hirdymor.

<sup>2</sup> Gweler Atodiad 1

14 Gwelsom y cyfleoedd canlynol:

- mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu sianelu i'r tymor byr a'r tymor canolig yn hytrach nag i'r tymor hir. Mae manteision i'w cael o'r cynlluniau y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt, ond nid yw'r strategaeth ymadael pan ddaw'r cyllid grant i ben yn 2020 a 2021 yn glir;
- mae angen i'r Cyngor ganfod a chasglu data a thystiolaeth a fydd yn caniatáu iddo fesur y galw cyfredol am wasanaethau, y galw parhaus sydd ar y gwasanaeth ac effeithiolrwydd y gweithgareddau ataliol. Er bod y swyddogion yn dangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi'r galw, mae angen cofnod o'r ddadl ynglŷn â'r galw ar wasanaethau er mwyn llywio cynlluniau'r Cyngor i'r dyfodol;
- mae swyddogion yn y Cyngor wedi nodi 'prif ddangosyddion' megis cyfleoedd cyflogaeth a lleoliad, ond nid yw'n glir a yw'r ffactorau hyn wedi dylanwadu ar gynlluniau'r cyngor.

**Mae'r Cyngor wedi ceisio deall y ffactorau sy'n effeithio ar blant ond mae angen iddo barhau i ddadansoddi data ymhellach er mwyn deall gwraidd y broblem a llywio ei weithgareddau ataliol**

**Beth wnaethom edrych amdano**

15 Edrychom am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau sydd wedi eu dyrannu i sicrhau bod manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- threfniadau monitro ac adolygu i weld pa mor effeithiol yw'r cam am atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

16 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'atal' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.<sup>3</sup>

**Beth wnaethom ei ganfod**

17 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- mae gan y swyddogion ddealltwriaeth dda o natur y broblem a'r math o broblem y mae'n ceisio ei lleihau;

<sup>3</sup> Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor yn gweithio ag adrannau mewnol y Cyngor, sefydliadau partner o'r sector cyhoeddus, a mudiadau trydydd sector i ganfod cyfleoedd ataliol;
- mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r manteision ataliol a geir o gefnogi plant yn gynnar - i'w gwneud yn gryfach, a chynigiasant wasanaeth sy'n cynyddu lefel y trefniadau atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda gwell mynediad at wybodaeth ac adnoddau cymunedol gyda'r nod o leihau'r angen am gefnogaeth ddwys a reolir;
- drwy gyfrwng Teulu Môn mae'r Cyngor yn ceisio lleihau'r galw tymor byr a thymor canolig ar ei wasanaeth drwy hybu'r gwasanaeth 'drws ffrynt' (Teulu Môn) yn helaeth. Nod y gwasanaeth hwn yw lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â gwasanaethau plant y Cyngor, felly mae'r Cyngor yn annog pobl i ddod ymlaen yn gynharach gyda phryderon lefel isel, er mwyn iddynt allu ymyrryd yn ataliol;
- mae gweithredwyr Teulu Môn yn darparu gwybodaeth a chyngor a chaiff y rheini nad ydynt yn bodloni'r trothwy i gael gofal statudol eu cyfeirio at wasanaethau ataliol cymunedol fel y bo'n briodol gan ei gwneud yn llai tebygol y bydd eu hanghenion yn dwysau; ac
- mae cynnwys twrnai'r cyngor mewn cyfarfodydd cyn achosion â theuluoedd sydd ar drothwy ymyrraeth ffurfiol wedi cryfhau'r trefniadau sy'n rhoi i'r teulu gyfle olaf i roi sylw i'r pryderon ac osgoi ymyrraeth ffurfiol.

#### 18 Gwelsom y cyfleoedd canlynol:

- nod Strategaeth Teulu Môn y Cyngor yw atal y sefyllfa rhag gwaethygu (atal eilaidd), ac mae angen i'r Cyngor sicrhau bod Cynllun y Cyngor yn cyfrannu at fynd i'r afael â gwraidd y broblem (atal sylfaenol), drwy er enghraifft gyflwyno mesurau i leihau / dileu'r hyn y mae'n tybio yw'r dangosyddion pennaf mwyaf dylanwadol (gwraidd y broblem); a
- nid yw cerdyn sgorio corfforaethol chwarterol y Cyngor yn gydnaws â dogfen cyflawni blynyddol y Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae ei gam wedi cyfrannu at ei amcanion llesiant ond mae'n bosibl y byddai gwybodaeth fwy eang am y diffiniad o integreiddio dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn helpu i sicrhau manteision gweithredol

### Beth wnaethom edrych amdano

#### 19 Edrychom am dystiolaeth o roi ystyriaeth i:

- sut gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y Cyngor a'i flaenoriaethau ehangach; a



- sut bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.
- 20 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'integreiddio' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.<sup>4</sup>

### Beth wnaethom ei ganfod

21 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant; ac
- mae gan y swyddogion ddealltwriaeth o'r cyfraniad a wna adrannau mewnol y cyngor, cyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r trydydd sector i gyflenwi'r gwasanaeth.

22 Gwelsom y cyfleoedd canlynol:

- mae yna gyfleoedd i ystyried sut gallai'r cam sicrhau ystod ehangach o fanteision drwy ddefnyddio'r saith nod llesiant cenedlaethol i ystyried effeithiau positif a negyddol posibl cyrraedd y nodau dros amser; ac
- ni chawsai'r Ddeddf ei hystyried fel ysgogwr ar gyfer y cam hwn ac o'r herwydd, fe ellid gwella'r ddealltwriaeth o'r egwyddor integreiddio ymhellach. Mae'r Cyngor a'r partneriaid yn disgrifio dull organig o gysoni'r nodau a'r amcanion – ond maent yn cyfaddef na allant ddangos eu hymdrechion i integreiddio yn effeithiol. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried yn ffurfiol sut bydd y datblygiad yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gydweithredu â phartneriaid ac adlewyrchu anghenion a dymuniadau cymunedau lleol, ond gallai wella'r ffordd y mae'n adolygu effeithiolrwydd y cydweithredu

### Beth wnaethom edrych amdano

23 Edrychom am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut gallai weithio ag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun);
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu i weld a yw cydweithredu yn ei helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni'r amcanion llesiant.

<sup>4</sup> Gweler Atodiad 1

24 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'cydweithredu' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.<sup>5</sup>

### Beth wnaethom ei ganfod

25 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gydweithredu'n fewnol ag adrannau'r Cyngor, yn allanol â chyrrff sector cyhoeddus, mudiadau trydydd sector, unigolion a chymunedau;
- yn fewnol, mae swyddogion yn disgrifio newid positif yn y ffordd y mae amrywiol wasanaethau'n cydweithredu. Mae'r partneriaid hefyd yn disgrifio perthynas waith positif iawn â'r Cyngor, gan gynnwys o'i gymharu â chynghorau eraill yn y rhanbarth; ac
- mae hyfforddiant ar y cyd wedi cael ei gynnal a'i ddarparu i staff y Cyngor a'r partneriaid, ac mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i lywio'r llwybrau mynediad at wasanaethau a defnyddio templed generig i gyfeirio at wasanaethau plant (mae'r templed yn adlewyrchu rhyw gymaint o'r 'sgwrs am yr hyn sy'n bwysig')

26 Gwelsom y cyfleoedd canlynol:

- ychydig o dystiolaeth a geir i awgrymu bod y Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei waith partneriaeth a'r gwersi a ddysgir o'i ddull gweithredu;
- mae'r cydweithredu yn arwain at fod y partneriaid yn gwneud atgyfeiriadau fwyfwy priodol i'r adran blant. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu casglu manylion i lywio'r 'sgwrsiau am yr hyn sy'n bwysig' cyn cyfeirio. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod hon yn ymdrech barhaus ac nad yw pob partner eto'n cyfeirio mor briodol ag y gallent; ac
- mae'r cydlynwyr asedau lleol y mae'r Cyngor newydd eu penodi yn darparu cyfle i wella ymhellach y trefniadau cydweithredu â phartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws y sir.

<sup>5</sup> Gweler Atodiad 1

## Mae'r Cyngor wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth lunio'r gwasanaeth, ond mae angen adolygu effeithiolrwydd ei ddull gweithredu er mwyn canfod arferion da a gweld a oes gwersi i'w dysgu

### Beth wnaethom edrych amdano

- 27 Edrychom am dystiolaeth bod y Cyngor:
- wedi nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys i ddylunio a chyflawni'r cam;
  - wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol i ddylunio a chyflawni'r cam;
  - wedi defnyddio canlyniadau'r gwaith o gynnwys rhanddeiliaid i siapio'r broses o ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
  - wedi ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gynnwys rhanddeiliaid.
- 28 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'cynnwys' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.<sup>6</sup>

### Beth wnaethom ei ganfod

- 29 Gwelsom y cryfderau canlynol:
- mae'r Cyngor wedi nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys i ddylunio a chyflawni'r cam;
  - mae'r Cyngor yn cynnwys y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac unigolion i siapio'r ffordd y mae'n cyflenwi'r gwasanaeth;
  - cafodd y cam ei ddylunio ar ôl ystyried llu o ddewisiadau cyflawni a ddeilliodd o 'sgwrs am yr hyn sy'n bwysig' ag unigolion. Mae'r 'sgwrs am yr hyn sy'n bwysig' yn hanfodol i ganfod anghenion unigolion; ac
  - Mae Medrwn Môn wedi darparu nifer o gyfleoedd i ymgysylltu â'r boblogaeth yn ei holl amrywiaeth gan gynnwys unigolion anodd eu cyrraedd.
- 30 Gwelsom y cyfleoedd canlynol:
- dylai'r Cyngor weithredu'r holiadur boddhad â'r gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau Ymyrraeth Ddwys a Darparu Gofal er mwyn casglu adborth gan unigolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth; a
  - gallai'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd ei ddull gweithredu er mwyn canfod arferion da a gweld a oes gwersi i'w dysgu.

<sup>6</sup> Gweler Atodiad 1

## Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

- 31 Ar ôl cwblhau ein gwaith maes cyflwynom ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ar ein canfyddiadau mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

Cyfleoedd	Ymateb / pwyntiau gweithredu CSYM
Hirdymor	
<p>Mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu sianelu i'r tymor byr a'r tymor canolig yn hytrach nag i'r tymor hir. Mae manteision i'w cael o'r cynlluniau y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt, ond nid yw'r strategaeth ymadael pan ddaw'r cyllid grant i ben yn 2020 a 2021 yn glir.</p>	<p>Mae'r cyllid craidd a geir gan Lywodraeth Cymru a'i rhaglenni a'i phrosiectau cysylltiedig yn cymell ffordd o feddwl tymor byr a thymor canolig ymysg sefydliadau sector cyhoeddus. I leddfu'r tensiwn hwn, mae'r Cyngor wrthi'n llunio Strategaeth atal gorfforaethol a fydd yn darparu cyfeiriad ac yn amlinellu llifoedd gwaith penodol os ydyn ni fel Cyngor am lwyddo yn y tymor hwy. Bydd y llifoedd gwaith hyn yn nodi'r rhaglenni strategol allweddol sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac yn egluro'r hyn a ddisgwylir ar ôl diwedd y cyllid grant.</p> <p>Pwynt i'w nodi – yn weithredol, mewn sefydliad sy'n rhwym wrth drefn lle mae'r aelodau sy'n cael eu hethol drwy broses ddemocrataidd bob pum mlynedd, mae datgan llwyddiant 'tymor hwy' yn dasg fwy heriol i'w chyflawni.</p>
<p>Mae angen i'r Cyngor ganfod a chasglu data a thystiolaeth a fydd yn caniatáu iddo fesur y galw cyfredol am wasanaethau, a'r galw parhaus ar y gwasanaeth ac effeithiolrwydd y gweithgareddau ataliol. Er bod y swyddogion yn dangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi'r galw, mae angen cofnod o'r ddatl ynglŷn â'r galw ar wasanaethau er mwyn llywio cynlluniau'r Cyngor i'r dyfodol.</p>	<p>Fel y nodir, mae casglu a chydodos data yn cael ei wreiddio yn null gweithredu'r gwasanaethau drwy gyflawni'r fframwaith rheoli perfformiad a chynllunio corfforaethol yn flynyddol; mae'r fframwaith hwn wedi'i sefydlu a'i wreiddio yng ngwaith y gwasanaethau.</p> <p>Mae strategaeth atal gorfforaethol ddatblygol y Cyngor yn ceisio sefydlu dull corfforaethol o safbwynt atal ac un o'r allbynnau a ragwelir fel rhan o'i llifoedd gwaith cysylltiedig fydd gwella dealltwriaeth o achosion y galw, a bydd hynny yn ei dro yn cynorthwyo'r agenda atal ac yn arwain y broses cynllunio corfforaethol i'r dyfodol.</p>

Cyfleoedd	Ymateb / pwyntiau gweithredu CSYM
<b>Atal</b>	
<p>Nod Strategaeth Teulu Môn y Cyngor yw atal y sefyllfa rhag gwaethygu (atal eilaidd), ac mae angen i'r Cyngor sicrhau bod Cynllun y Cyngor yn cyfrannu at fynd i'r afael â gwraidd y broblem (atal sylfaenol), drwy er enghraifft gyflwyno mesurau i leihau / dileu'r hyn y mae'n tybio yw'r dangosyddion pennaf mwyaf dylanwadol (gwraidd y broblem).</p>	<p>Fel rhan o'r strategaeth atal gorfforaethol rhagwelir y bydd y data yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod cyn lleied â phosibl o ddyblygu'n digwydd; ac</li> <li>• nad yw gwaith y Cyngor yn cylchdroi o amgylch allbynnau'r cynlluniau cyllid grant ond yn hytrach yn cylchdroi o amgylch yr unigolion eu hunain</li> </ul> <p>Un esiampl o lle mae hyn yn gweithio'n dda ar hyn o bryd yw'r hybiau ymyrraeth gynnar; mae'n bosibl y bydd angen ymestyn y rhain i leihau / dileu gwraidd y broblem.</p>
<p>Nid yw cerdyn sgorio corfforaethol chwarterol y Cyngor yn gydnaws â dogfen cyflawni blynyddol y Cyngor.</p>	<p>Wrth i'r Cyngor werthuso'r broses o fonitro'r cerdyn sgorio yn ystod 2018-19, gwelodd fod hwn yn gyfle i wella.</p> <p>Yn dilyn gweithdy â'r Uwch Dîm Rheoli ac aelodau etholedig o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith cysgodol, mae'r gwaith o gysoni'r cerdyn sgorio â Dogfen Cyflawni Blynyddol a Chynllun y Cyngor bellach wedi'i gyflawni.</p>
<b>Integreiddio</b>	
<p>Mae yna gyfleoedd i ystyried sut gallai'r cam gyflawni ystod ehangach o fanteision drwy ddefnyddio'r saith nod llesiant cenedlaethol er mwyn ystyried effeithiau positif a negyddol posibl cyrraedd y nodau dros amser.</p>	<p>Yn cytuno.</p>
<p>Ni chawsai'r Ddeddf ei hystyried fel ysgogwr ar gyfer y cam hwn ac o'r herwydd, gallai'r ddealltwriaeth o'r egwyddor integreiddio gael ei chryfhau ymhellach.</p>	<p>Mae'r egwyddor integreiddio yn amlwg yn yr hyb ymyrraeth gynnar.</p> <p>Ceir nawr gyfle i ymestyn yr egwyddor hon ymhellach drwy wireddu'r cynlluniau presennol i greu tîm integredig mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd rhanbarthol.</p>

Cyfleoedd	Ymateb / pwyntiau gweithredu CSYM
<p>Mae'r Cyngor a'r partneriaid yn disgrifio dull organig o gysoni'r nodau a'r amcanion – ond maent yn cyfaddef na allant ddangos eu hymdrechion i integreiddio yn effeithiol. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried yn ffurfiol sut bydd y datblygiad yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.</p>	<p>Tybir bod hwn yn gyfle heriol i'r dyfodol gan gofio'r gwahanol amserlenni cynllunio sydd gan y gwahanol gyrff cyhoeddus.</p> <p>Mae'r cyfle hwn yn ddibynnol ar gael gwell eglurder cyfeiriad drwy gyfrwng y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Grŵp Arweinyddol Gogledd Cymru.</p>
<b>Cydweithredu</b>	
<p>Ychydig o dystiolaeth a geir i awgrymu bod y Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei waith partneriaeth a'r gwersi a ddysgir oddi wrth ei ddull gweithredu.</p>	<p>Caiff effeithiolrwydd y gwaith partneriaeth ei adolygu'n flynyddol. Cafodd y partneriaethau eu diffinio, mabwysiadwyd polisi clir ar gyfer ymrwmo i bartneriaethau a nodir bod partneriaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn statudol</li> <li>• Yn allweddol neu</li> <li>• Yn cyflawni Gwasanaeth</li> </ul> <p>Mae'r Pwyllgor craffu ar Bartneriaethau ac Adfywio yn craffu ar bob partneriaeth strategol yn ddibynnol ar risg a caiff hyn ei reoli bob chwarter.</p>
<p>Mae'r cydweithredu yn arwain at atgyfeiriadau fwyfwy priodol gan y partneriaid i'r adran blant. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu casglu manylion i lywio'r 'sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig' cyn cyfeirio. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod hon yn ymdrech barhaus ac nad yw pob partner eto'n cyfeirio mor briodol ag y gallent.</p>	<p>Yn cytuno.</p> <p>Yr hwb ymyrraeth gynnar wedi'i sefydlu i oresgyn yr elfennau hyn.</p>
<p>Mae'r cydlynwyr asedau lleol y mae'r Cyngor newydd eu penodi yn darparu cyfle i wella ymhellach y trefniadau cydweithredu â phartneriaid a phartneriaid trydydd sector ar draws y sir.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn cytuno â'r canfyddiad hwn ac felly hefyd y dylai gwaith y Cydlynwyr asedau lleol hwyluso gwell cydweithredu ac integreiddio rhwng partneriaid sector cyhoeddus a thrydydd sector ar draws y sir.</p>

Cyfleoedd	Ymateb / pwyntiau gweithredu CSYM
Cynnwys	
<p>Dylai'r Cyngor weithredu'r holiadur boddhad â'r gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau Ymyrraeth Ddwys a Darparu Gofal er mwyn casglu adborth gan unigolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth.</p>	<p>Mae'r Cyngor eisoes yn cydgasglu nifer o holiaduron fel rhan o gynlluniau'r Tîm o Amgylch y Teulu a'r IFSS.</p> <p>Ceir cyfle i ymestyn y ddarpariaeth hon i'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol ehangach fel bod adborth gan unigolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cydgasglu a bod eu canfyddiadau'n cael eu defnyddio'n unol â hynny.</p>
<p>Gallai'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd ei ddull gweithredu er mwyn canfod arferion da a gweld a oes gwersi i'w dysgu.</p>	<p>Mae fframwaith perfformiad a chynllunio corfforaethol (CPPMF) diwygiedig y Cyngor wedi nodi'r angen i ddatgan yn well ei ddull o gynnwys pobl drwy gynyddu'r esiamplau o arferion da er mwyn rhannu'r gwersi mewn ffordd gynhwysfawr a chydlynol.</p> <p>Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd ar lefel rheoli prosiectau ond mae mwy o bwyslais yn cael ei integreiddio i'r adolygiadau o wasanaethau (un rhan hollbwysig o'r CPPMF) a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd / Rhagfyr 2019.</p> <p>Mae'r templed diwygiedig ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith (a gyflwynir yn Ion 2020) hefyd yn amlinellu'r gofyn i nodi sut cafodd dinasyddion eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau.</p>

32 Byddwn yn dal i fonitro hynt y Cyngor yn gweithredu'r camau hyn, ac i ba raddau y maent yn rhoi sylw i'r materion a welsom yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 2: Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn gosod 'dangosyddion positif' ar gyfer y pum ffordd o weithio a nodwyd gennym. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr gyfeirio. Dylid eu hadolygu fel dangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

#### Beth a fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd o weithio hirdymor?

- Ceir dealltwriaeth glir o'r hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Maent wedi dylunio'r cam er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision tymor byr neu dymor canolig, ac mae cydbwysedd i'w gael rhwng y manteision hynny a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).
- Maent wedi dylunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o'r angen a'r pwysau yn awr ac i'r dyfodol, ac mae hynny'n cynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.
- O'r herwydd, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd a geir yn awr ac i'r dyfodol.
- Cafodd adnoddau eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision tymor byr yn cael eu cyflenwi.
- Ceir ffocws ar gyflawni canlyniadau, gyda chamau cynnydd/cerrig milltir wedi'u nodi os caiff y canlyniadau eu cyflawni dros yr hirdymor.
- Maent yn agored i wneud pethau mewn ffyrdd newydd a allai eu helpu i gael manteision dros y tymor hwy.
- Maent yn gwerthfawrogi deallusrwydd ac yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

#### Beth a fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd o weithio ataliol?

- Mae'r corff yn ceisio deall gwraidd problemau er mwyn gallu mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n ymwneud â phontio'r cenedlaethau.
- Mae'r corff yn gweld heriau ar draws y system gyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu cyflenwi i bobl a lleoedd.
- Mae'r corff yn dyrannu adnoddau ar gyfer camau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau ac at ddefnyddio adnoddau'n well dros y tymor hwy, hyd yn oed os gallai hyn gyfyngu ar y gallu i fodloni anghenion tymor byr.
- Ceir trefniadau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau er mwyn sicrhau'r gwelliannau disgwyliedig yn y canlyniadau a'r ffordd y defnyddir adnoddau.



### **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu mewn ffordd 'integredig'?**

- Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.
- Mae unigolion ar bob lefel yn deall beth mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac fe ânt ati i chwilio am gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei ailadrodd yn eu gwaith â chyrrff cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad ar gyfer cyflawni'r uchelgais a'r amcanion.
- Ceir diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rhannu.
- Ceir dealltwriaeth sefydledig o sut mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff sector cyhoeddus eraill.
- Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf ar draws y nodau llesiant ac yn lleihau'r effeithiau negyddol.
- Mae'r drefn lywodraethu, y strwythurau a'r prosesau'n ategu hyn, felly hefyd yr ymddygiadau.

### **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?**

- Canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau a wna'r corff yn hytrach nag ar ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, ac mae hyn yn helpu i ysgogi gweithgaredd cydweithredol.
- Mae gan y corff berthnasoedd positif ac aeddfed â'i randdeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall pob partner eu gwneud.
- Mae'r corff yn ceisio sefydlu cyd-brosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo hynny'n briodol.

### **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?**

- Bod â dealltwriaeth o bwy sydd angen cael ei gynnwys a pham.
- Yn myfyrio i ba raddau ar hyn o bryd y deallir yr anghenion a'r heriau y mae'r bobl hynny yn eu hwynebu.
- Yn gweithio'n gydgynhyrchiol, gan weithio â rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Yn ystyried bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn ffynonellau gwybodaeth holl bwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.
- Yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn eu holl amrywiaeth yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Wedi meithrin perthnasoedd positif ac aeddfed â'i randdeiliaid, lle ceir dialog parhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Yn ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol ac mae'r adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i helpu i ddysgu a gwella.

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)